Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-03-20 P2

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ref: KS/74/20

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

SeneddFinance@assembly.wales

14 Ionawr 2020

Annwyl Llyr,

Gofynnwyd i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn y Pwyllgor Cyllid ar yr 18 Rhagfyr 2019 i egluro sut y caiff y Gronfa Trawsnewid Allyriadau Isel Iawn ei defnyddio ac yn benodol ble y bydd bysiau newydd. Gofynnwyd imi ymateb, gan bod hyn yn rhan o fy mhortffolio.

Bydd y gronfa £29 miliwn yn cynnwys nifer o feysydd gan gynnwys:

- Darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan i dacsis a cherbydau hurio preifat
- Lleoliadau gwefru cerbydau trydan – canolbwyntio ar ardaloedd trefol gyda'r posibilrwydd o gynnal amrywiaeth eang o anghenion gwefru cerbydau trydan
- Darparu Fflyd Gwyrdd (bysiau a thacsis)

Mae canllawiau wedi'u rhoi i awdurdodau lleol i ofyn iddynt gyflwyno cynigion ar gyfer 2020/21 ar sut yr hoffent ddefnyddio'r gronfa. Unwaith y byddwn yn derbyn eu cynigion byddwn mewn sefyllfa well i gydweithio ag awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a chwmnïau trafnidiaeth cyhoeddus i dargedu'r Gronfa mewn ffordd sy'n gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus.

Rwy'n disgwyl i elfen fawr o'r Gronfa gael ei neilltuo i gyflwyno seilwaith gwefru. Fodd bynnag, os ydym i wario ar fflyd trafnidiaeth gyhoeddus, bydd yn bwysig ein bod yn goroesi unrhyw broblemau Cymorth Gwladol, yn ogystal â sicrhau nad bwriad ein hymyrraeth yw disodli y buddsoddiad gan y sector preifat.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion yn edrych ar y ffordd orau o weinyddu elfen gyllido y Trafodion Ariannol (£7.5 miliwn o’r Gronfa) ar gyfer trawsnewid cerbydau trydan gyda phartneriaid gan gynnwys y Band Datblygu.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport